

## CAIS AM DRWYDDED CERBYD HACNAI

Os ydych yn dymuno gwneud cais am Drwydded Cerbyd Hacnai, mae'n rhaid i'r cerbyd gydymffurfio ag amodau trwyddedu'r Cyngor ar gyfer Cerbydau Hacnai. Bydd cerbydau trydan hefyd yn cael eu hystyried

**Sylwer:** - Rhaid i'r cerbyd fod o dan 5 mlwydd oed o'r dyddiad cofrestru am y tro cyntaf. Os yw'r cerbyd yn hygyrch i gadeiriau olwyn, ni ddylai fod dros 8 mlwydd oed o'r dyddiad cofrestru am y tro cyntaf.

Rhaid anfon y canlynol gyda'r cais:

(a) **Dewis A:** Ffi ar gyfer y drwydded cerbyd o £146.00 (nad ad-delir)  
Mae hyn yn cynnwys:

- Y prawf cyntaf ar fecanwaith y cerbyd ac un ail brawf yn unig.
- Plât trwydded y cerbyd
- Sticeri Drws a sticeri arwyddion to

**Dewis B:** Ffi ar gyfer y drwydded cerbyd o £158.00 (nad ad-delir)  
Mae hyn yn cynnwys:

- MOT
- Y prawf cyntaf ar fecanwaith y cerbyd ac un ail brawf yn unig.
- Plât trwydded y cerbyd
- Sticeri Drws a sticeri arwyddion to

**NODER:** Codir tâl ychwanegol am adnewyddu sticeri adnabod a phlât trwydded.

(b) Tystysgrif yswiriant ddilys ar gyfer y cerbyd

(c) Tystysgrif MOT ddilys

(d) Dogfen Cofrestru Cerbyd

- Dylid croesi pob siec a'i gwneud yn daladwy i 'Cyngor Sir Caerfyrddin'
- Mae'n rhaid dychwelyd y ffurflenni cais at y canlynol: Cyngor Sir Caerfyrddin, Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel, Yr Adran Cymunedau, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin, SA31 1LE

---

Fel ymgeisydd am Drwydded Cerbyd Hacnai, tynnir eich sylw at y canlynol:

Rhaid i bobl sy'n gyrru cerbyd sydd wedi'i drwyddedu gan Gyngor Sir Caerfyrddin fel Cerbyd Hacnai hefyd feddu ar drwydded yrru ddeuol ddilys, sydd hefyd wedi'i dyroddi gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Mae'n bosibl y bydd angen caniatâd cynllunio lle bydd cerbydau (boed y rheini'n Gerbydau Hacnai, Cerbydau Hurio Preifat neu'n gyfuniad o'r ddau) yn cael eu gweithredu o eiddo preswyl, neu lle defnyddir yr eiddo fel ystafell aros neu fel man casglu ar gyfer gyrrwyr a/neu deithwyr.

## Hysbysiadau Preifatrwydd

Mae sicrhau bod Cyngor Sir Caerfyrddin yn trin gwybodaeth bersonol yn gywir yn bwysig iawn o ran darparu ein gwasanaethau a chadw hyder y cyhoedd.

Ystyr data personol yw unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â pherson y mae modd adnabod pwy ydyw yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy ddefnyddio'r wybodaeth. Defnyddir y termau 'gwybodaeth' a 'data personol' yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn drwyddo draw ac maent yn gyfystyr.

Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn trin gwybodaeth bersonol yn gywir, rydym yn ceisio cydymffurfio'n llwyr â gofynion deddfwriaeth Diogelu Data.

Felly, mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn wedi'i lunio i esbonio mor glir â phosibl beth rydym yn ei wneud â'ch data personol. I weld yr hysbysiad preifatrwydd trwyddedu, ewch i:

[www.sirgar.llyw.cymru/cartref/cyngor-a-democratiaeth/diogelu-data/hysbysiadau-preifatrwydd/trwyddedu/](http://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/cyngor-a-democratiaeth/diogelu-data/hysbysiadau-preifatrwydd/trwyddedu/)

I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar wefan y Cyngor neu cysylltwch â'r adran hon.

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i Gyngor Sir Caerfyrddin rannu data gydag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig i greu cronfa ddata o gerbydau trwyddedig er mwyn cynorthwyo â'r gwaith o godi tâl am barthau aer glân gan awdurdodau lleol neu gynlluniau ansawdd aer eraill. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i

<https://www.gov.uk/government/publications/air-quality-taxis-and-private-hire-vehicles-phvs-database-guidance>.

# GWYBODAETH YNGHYLCH CERBYDAU HACNAI/CERBYDAU HURIO PREIFAT

## DARLLENWCH Y CANLYNOL CYN MYND Â'CH CERBYD I GAEL PRAWF:-

- 1) Rhaid i gerbydau fod o fath addas sydd mewn cyflwr da, a dylent gael eu cymeradwyo gan y Swyddog Awdurdodedig, gan Heddwes, a chan archwilydd cerbydau.
- 2) Rhaid gwneud pob apwyntiad trwy'r Swyddog Trwyddedu.
- 3) Ni ddyroddir trwydded cerbyd hyd nes y bydd y ffi briodol wedi'i thalu. Os telir â siec sy'n cael ei gwrthod wedi hynny, bydd y drwydded yn ddi-rym.
- 4) Hysbysir pob ymgeisydd y bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn ymdrechu i gynnal prawf ar y cerbydau ar yr adeg a ddymunir. Fodd bynnag, rhaid nodi nad oes unrhyw sicrwydd y bydd y profion ar gael ar fyr rybudd.
- 5) Gofynnir i chi fod yn brydlon ar gyfer eich prawf. Os na allwch fod yn bresennol mae'n **RHAID** ichi gysylltu â'r Swyddfa Drwyddedu gan roi cymaint o rybudd ag y gallwch. Os na fyddwch yn bresennol ar yr amser a glustnodwyd heb roi gwybod ymlaen llaw, bydd y cerbyd yn methu'r prawf.
- 6) Ni fydd y cerbyd yn cael prawf oni allwch ddangos derbynneb ddilys a thystysgrif MOT.
- 7) Pan wneir cais cychwynnol bydd cerbydau sy'n methu bodloni pob un o ofynion prawf y Cyngor yn **METHU'R** prawf ac **NI** ellir eu defnyddio fel Cerbyd Hacnai/Cerbyd Hurio Preifat.
- 8) Bydd cerbyd trwyddedig sy'n **METHU'R** prawf yn derbyn Hysbysiad yn **ATAL** y drwydded.
- 9) Mae'n **RHAID** gwneud trefniadau i'r cerbyd gael ail brawf trwy'r Adain Drwyddedu.
- 10) Bydd trwyddedau cerbyd yn parhau mewn grym am hyd at flwyddyn. Daw'r drwydded i ben ar ddiwrnod olaf y mis cyn mis dyroddi'r drwydded.
- 11) Rhaid dychwelyd yr holl sticeri adnabod a'r platiau cerbyd i'r Cyngor pan fydd y drwydded cerbyd yn dod i ben, yn cael ei hatal neu'i diddymu.
- 12) Mae'r tâl a anfonir gyda'r cais yn cynnwys cost y prawf cyntaf a wneir ar y cerbyd a chost un ail brawf yn unig os bydd angen. Os bydd cerbyd yn methu'r ail brawf, mae'n rhaid talu £26.00 i'r Cyngor am brawf ychwanegol.
- 13) Os credwch fod gennych achos i gwyno am y prawf cerbyd neu'r broses ymgeisio/meini prawf, gofynnir i chi anfon y manylion yn ysgrifenedig at :

Pennaeth Cartrefi a Chymunedau mwy Diogel,  
Yr Adran Cymunedau,  
Cyngor Sir Caerfyrddin,  
3 Heol Spilman,  
Caerfyrddin, SA31 1LE

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976, ADRAN 65**

**TABL O'R PRISIAU UCHAF Y GALL CERBYD HACNAI EU CODI**

	<b>Tariff 1</b> 6am - 8pm	<b>Tariff 2</b> 8pm - 12 hanner nos	<b>Tariff 3</b> 12 hanner nos - 6am
Am y filltir gyntaf neu ran o'r pellter hwnnw	£4.50	£4.70	£5.15
Am bob un rhan o ddeg o filltir neu ran o'r pellter hwnnw, ar gyfer milltiroedd ychwanegol	£0.25	£0.30	£0.35
Amser aros (y funud)	£0.30	£0.30	£0.40

Gweithredir gordal Tariff 2 ar y mesurydd ar y Sul, Gwyliau Cyhoeddus a Gwyliau Banc a phob nos ar ôl 8.00pm tan 12 hanner nos.

Gweithredir gordal Tariff 3 ar y mesurydd o 12 hanner nos tan 6.00am

Sylwch y bydd yn rhaid i Weithredwyr sy'n dymuno cychwyn gweithredu'r cyfnod prisiau Tariff 2 yn hwyrach na 8.00pm, a chychwyn gweithredu Tariff 3 yn hwyrach na 12 hanner nos, ddangos y wybodaeth hon ar eu tabl prisiau ym mhob cerbyd.

<b>Taliadau ychwanegol (Dewisol)</b>	
Ffi am ddifwyno'r cerbyd.	£120.00 Uchafswm Tâl
Ffi Archebu (os yw'r daith yn cychwyn mwy na 4 milltir o ganolfan y gweithredwr)	£ 5.00
Cerbydau sy'n cludo 5–8 teithiwr. Am bob teithiwr, os bydd MWY NA PHEDWAR teithiwr	£1.00 yr un

Bydd y pris Tariff 1 ar y mesurydd yn cael ei ddyblu ar gyfer hurio sy'n cychwyn Ddydd Nadolig a Dydd Calan.

Dylai unrhyw berchennog sydd am gael rhagor o wybodaeth neu eglurhad ynghylch yr uchod gysylltu â Swyddogion Trwyddedu'r Adran drwy ffonio 01267 234567

# CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

## Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 Rhan II

### **DEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREFOL 1847 CAIS AM DRWYDDED CERBYD HACNAI**

AT DDEFNYDD Y SWYDDFA'N UNIG

Dyddiad Derbyn y Cais:			
Derbyniwyd y Ddogfen Gofrestru		Oed y Cerbyd	bl mis
Derbyniwyd y Ddogfen Yswiriant		Cerbyd Pwrpasol	Ydy/Nac ydy
Derbyniwyd y Dystysgrif MOT		Yn hygyrch i gadeiriau olwyn	Ydy/Nac ydy
Derbyniwyd y Ffi	Swm £ bo'n briodol) Rhif derbynneb fanylion)	Arian Parod/Siec (dileer fel y Arall:	(Rhowch

**D.S. Os bydd unrhyw berson, boed hynny trwy wybod iddo neu trwy esgeulustod, yn gwneud datganiad ffug neu'n gadael allan unrhyw fanylion o bwys wrth roi'r wybodaeth ganlynol bydd yn euog o drosedd o dan Adran 57 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 Rhan II.**

#### **DEFNYDDIWC H BRIFLYTHRENAU OS GWELWCH YN DDA**

1. Ymgeisydd

a) Enw Llawn .....

b) Cyfeiriad Parhaol .....

E-bost : .....

c) Dyddiad Geni ..... d) Rhif ffôn .....

e) Enw'r Cwmni .....

f) Rhif Trwydded Gweithredydd .....

2. Cerbyd

a) Gwneuthuriad a Model y Cerbyd .....

b) Rhif Cofrestru ..... c) Maint yr Injan .....

d) Nifer y Drysau ..... e) Lliw .....

f) Dyddiad cofrestru am y tro cyntaf  
.....

g) Ydy'r cerbyd yn Gerbyd Hacnai pwrpasol **Ydy/Nac ydy** (Dileer fel y bo'n briodol)

h) Ydy'r cerbyd yn hygyrch i gadeiriau olwyn? **Ydy/Nac ydy**: Oes ganddo offer codi? **Oes/Nac oes**

Os yw'r cerbyd yn hygyrch i gadeiriau olwyn, nodwch y rhif ffôn cyswllt er mwyn archebu'r cerbyd hwn.

Bydd y rhif cyswllt hwn i'w weld ar wefan y Cyngor: .....

i) Fe'i cynlluniwyd i gario ..... o bobl (heb gynnwys y gyrrwr)

j) A oes radio dwy-ffordd, ffôn car, galweddydd neu rywbeth tebyg yn y cerbyd? (rhowch fanylion)

.....

k) Ai chi yw unig berchennog a gweithredydd y cerbyd? **IE/NA** (dileer fel y bo'n briodol)

Os **NA**, nodwch enw(au) a chyfeiriad(au) pob perchennog, neu ran-berchennog sy'n ymwneud â chadw, defnyddio neu logi eich cerbyd.

Enw(au) .....

Cyfeiriad(au) .....

Dyddiad Geni:..... Rhif ffôn .....

l) Ble'r ydych yn bwriadu defnyddio'r cerbyd at ddibenion gyrru tacsï .....

m) A ydych yn bwriadu i'r cerbyd gael ei ddefnyddio (un ai'n llwyr neu'n bennaf) ar gyfer gwaith Hurio Preifat y tu allan i'r Sir .....

n) A ydych chi, neu unrhyw ran-berchennog neu unrhyw bartneriaeth yr ydych neu yr oeddech yn rhan ohoni, neu gwmni yr ydych neu yr oeddech yn Gyfarwyddwr neu'n Ysgrifennydd arno, erioed wedi eich cael yn euog o unrhyw dramgwydd troseddol neu unrhyw drosedd yn ymwneud â'r Deddfau a'r Rheolau Traffig Ffyrdd?

**YDW/NAC YDW** (dileer fel y bo'n briodol)

Os '**Ydw**', rhowch y manylion isod

Dyddiad	Trosedd	Math o Lys a Lleoliad	Dedfryd neu Orchymyn y Llys

**Wrth ateb y cwestiwn hwn tynnir eich sylw at Ddeddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974**

o) Enw a Chyfeiriad y Cwmni Yswiriant sydd wedi darparu Polisi Yswiriant llawn i chi ar gyfer Llogi'r Cerbyd i'r Cyhoedd, ac a gyflwynwyd yn unol â, ac yn gydnaws â Rhan VI o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988.

Enw .....

Cyfeiriad .....

Rhif Ffôn ..... Dyddiad y Daw'r Yswiriant i Ben.....

Rhif y Polisi Yswiriant .....

Amodau Arbennig y Polisi .....

Brocer Yswiriant.....

..... Rhif ffôn .....

3. **Rwyf yn datgan fod y wybodaeth a roddwyd gennyf ar y cais hwn yn gwbl gywir. Os caniateir i mi gael trwydded, rwyf hefyd yn datgan y byddaf yn cydymffurfio â'r Amodau a'r Nodiadau Cyfarwyddyd sy'n rhestru'r darpariaethau statudol.**

Llofnod .....Dyddiad .....

Mae dyletswydd arnom, fel corff cyhoeddus, i ddiogelu'r cyllid cyhoeddus a weinyddir gennym ac i'r diben hwn cawn ddefnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd gennych ar y ffurflen hon i atal a darganfod twyll. Gallwn hefyd rannu'r wybodaeth hon â chyrrff eraill sy'n gyfrifol am archwilio neu weinyddu arian cyhoeddus at y dibenion hyn. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar wefan y Cyngor neu cysylltwch â'r adran hon.